

Mai 27^{ain}, 2020

Cofnodion Cyfarfod Cyffredin Cyngor Cymuned Llandybïe a gynhaliwyd trwy gyfrwng Microsoft Teams ar nos Fercher, Mai 27^{ain}, 2020 am 6.30 yh

Presennol

Cynghorwyr	R. A. Davies	Mrs Ll. Latham	Mrs J.E. Collins
	W.D. Evans	Mrs C. Thomas	Mrs A. Evans
	I. Rh. Llewelyn	S. J. Roberts	P.H. Roberts
	Mrs K.D. L. Davies	C.J. Harris	Mrs Ll. Hindley
	D. Nicholas	Mrs S.E. Thomas	B. Rees

Ymddiheuriadau

Cynghorwyr	D. Hopkins	A.W Jones	E.W Nicholas
	N. Evans		

713.

Datganiadau o Fuddiant

Nid oedd unrhyw ddatganiad.

714.

COFNODION

Rhoddwyd ystyriaeth i gofnodion y cyfarfodydd canlynol fel y'u dosbarthwyd hwy:

Cofnodion Cyfarfod Cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd ar Mai 6^{ed}, 2020.

Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar Mai 6^{ed}, 2020.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r mynychwyr os oedd yna unrhyw fater i'w godi; nid oedd, felly **penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd hyn yn gofnod cywir.

Penderfynwyd hefyd gadarnhau argymhellion y pwyllgor.

715.

MATERION YN CODI O'R COFNODION

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

GOHEBIAETH

716.

Adroddiadau'r Heddlu ynghylch troseddau

Ni dderbyniwyd adroddiadau oddiwrth y Timau Plismona yn y Gymdogaeth.

717.

ADRODDIAD Y CLERC

a) Gohirio'r Cyfarfod Statudol

Daeth Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru 2020 i rym ar Ebrill 22^{ain}, 2020.

Cadeirydd

Mae Rhan 3 o'r Act yn dileu'r gofyn bod Cyngor Cymuned yn cynnal y cyfarfod blynyddol ym mis Mai, 2020, ac yn caniatáu bod y Cadeirydd a'r strwythur pwyllgorau presennol y aros yn eu lle tan Fai 1^{af}, 2021 fan pellaf, neu tan fod y Cyngor yn cytuno fel arall.

Mae blwyddyn swyddogol y Cadeirydd yn ei swydd yn dod i ben ar Fai 27^{ain}, 2020, ac mae wedi bod yn arferol bod yr Is-Gadeirydd presennol yn cael ei gynnig a'i eilio gan ddau Aelod o'r Cyngor i gymryd Cadair y Cyngor am y flwyddyn 2020/2021. Roedd y Clerc wedi trafod gyda'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd, ac roedd y ddau yn hapus i barhau yn eu rolau presennol tan fydd penderfyniad yn cael ei wneud ynghylch ailgynnull y cyfarfodydd arferol.

Nid oes angen unrhyw benderfyniad ffurfiol gan y Cyngor i ymestyn tymor gwasanaeth swyddogion ac aelodau pwyllgor ac, yn y pen draw, mae'r penderfyniad i'w wneud gan Glerc y Cyngor fel y Swyddog Priodol. Ond, serch hynny, roedd y Clerc wedi derbyn cadarnhad oddiwrth y mwyafrif o'r Aelodau eu bod yn fodlon ar hyn.

Roedd yr Aelodau wedi **penderfynu** bod:

- a) Y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd yn parhau yn eu swyddi
- b) Aelodaeth pob pwyllgor yn aros yn ddigynfnewid
- c) Cynrychiolaeth ar Gyrff Allanol yn aros y ddigynfnewid
- ch) Cyfarfodydd Cyffredin y Cyngor yn parhau, yn unol â Chofnod 527
- dd) Llofnodwyr Banc awdurdodedig yn aros yn ddigynfnewid

Byddai'r trefniadau hyn yn parhau yn eu lle tan Fai 1^{af}, 2021 fan pellaf, neu tan fod y Cyngor yn cytuno fel arall.

b) Hawliau Tramwy Cyhoeddus

1) Llwybr Troed 51/74 yn Llandybïe

Roedd y tirfeddiannwr wedi cysylltu â Chyngor Sir Caerfyrddin i'w hysbysu bod peth ymsuddiant ar y llwybr troed hwn sy'n arwain o fferm Coedfryn hyd at groesfan y rheilffordd. Roedd y mater wedi'i arolygu, a phenderfynwyd ei fod yn fân ymsuddiant ar hyn o bryd, ac y byddai rhwystrau diogelwch priodol i warchod y cyhoedd yn cael eiu gosod am y tymor byr.

Roedd y tirfeddiannwr wedi cytuno i wneud yr atgyweiriadau ond, i'w alluogi i wneud hynny, byddai angen cau'r llwybr am gyfnod byr o 3 diwrnod. Roedd y Cyngor Sir wedi gosod arwyddion i rybuddio'r cyhoedd bod y llwybr ar gau, ac roedd y gwaith wedi cychwyn ar ddydd Mawrth, Mai 26^{ain}, 2020.

2) Llwybr Troed 51/5 yng Nghwmgwili

Roedd y Cynghorydd P. H. Roberts wedi dweud bod dwy gangen fawr wedi cwmpo ar y llwybr troed hwn, ac yn beryglus i unrhyw aelod o'r cyhoedd a fyddai'n defnyddio'r llwybr troed. Roedd y Clerc wedi gofyn i gwmni Dynevor Trees i symud y rhwystr, ac roedd hyn wedi'i wneud yn foddhaol ar y diwrnod canlynol.

Roedd y gwaith wedi'i gwblhau'n foddhaol am bris o £170, a **phenderfynwyd** y dylid talu'r anfoneb.

3) Llwybr Troed 51/120 yn Llandybïe

Roedd y Cynghorydd Mrs Ll. Latham wedi dweud er gwaetha'r ffaith bod y llwybr troed hwn ar gau i'r cyhoedd bod arwyddion gwybodaeth wedi'u tynnu i ffwrdd o'r ddau ben, a bod y glwyd i gerddwyr wedi'i ddatgloi. Yn ychwanegol, roedd y brif glwyd ar y ffordd fawr ar agor ambell waith oherwydd bod y tiffeddiannwr yn defnyddio'r bont i gael mynediad at ei dir. Roedd tyllau amlwg yn wyneb y bont, ac mae'n wir beryglus i unrhyw gerddwr sy'n ceisio ei chroesi. Roedd y Clerc wedi hysbysu tîm Hawliau Tramwy Cyhoeddus y Cyngor Sir a oedd wedi ymweld â'r safle i osod rhagor o arwyddion ac i roi clo clap ar y glwyd i gerddwyr. Gofynnwyd am brisiau am atgyweirio'r bont, neu i osod pont newydd.

c) Parc Saron

Roedd y Clerc wedi gofyn am ddyfynbrisiau oddiwrth dri chontractwr am amnewid y ffens rheilen uchder penglin ym Mharc Saron i wahanu'r maes parcio oddiwrth ardal yr ystafelloedd newid. Derbyniwyd y dyfynbris isaf oddiwrth MBP Fencing, sef pris o £840 a TAW. Roedd y gwaith hyn wedi'i adnabod yn ystod y cyfarfod Datblygu Cymunedol a gynhaliwyd ym mis Tachwedd, ac wedi'i gwblhau'n foddhaol.

Ar ôl trafod y mater gyda'r Cadeirydd, roedd yr anfoneb wedi'i thalu.

ch) Parc Penybanc

Roedd y Clerc wedi derbyn tri dyfynbris am y gwaith ym Mharc Penybanc. Roedd y tendr wedi gofyn am bris i gyflenwi a gosod offer chwarae cymeradwy, gosod arwyneb newydd o dan yr offer ynghyd â gwaith draenio a gosod ymylon pren. Roedd y tendrau wedi'u hagor gan y Cadeirydd a'r Clerc ac wedi'u sgorio yn ôl y gofynion tendro.

Derbyniwyd y tendr mwyaf cystadleuol, yn nhermau pris ac ansawdd y cyflwyniad, oddiwrth Sunshine Playgrounds Ltd am ddyfynbris o £41953.50 a TAW.

Penderfynwyd y dylid dyfarnu'r contract i Sunshine Playgrounds, a byddai'r Clerc yn cymryd arweiniad pellach ynghylch mynediad i'r anabl i'r parc, a'r posibilrwydd o gwmpo coed sy'n hongian uwchben y parc, ond yn tyfu ar eiddo cyfagos.

Derbyniwyd cydrannau amnewid am amrywiol ddarnau o offer oddiwrth gwmni Fenland Leisure Ltd am bris o £1800.50 a TAW.

Penderfynwyd y dylid talu'r anfoneb hon pan fyddai'n cael ei chyflwyno.

d) Blodau Gwyllt

Roedd y Clerc wedi bod yn trafod, gyda Wrenvale Nurseries, adnewyddu'r safleoedd hynny a blannwyd y llynedd. Serch hynny, roedd wedi cael ar ddeall bod Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cwtogi ar dorri gwair ar ymylon y priffyrdd ac nad oedd unrhyw sicrwydd y byddai'r ardaloedd gwair sy'n amgylchynu'r gwelyau blodau yn cael eu torri. Roedd y Clerc wedi cytuno taw dim ond yr ardaloedd ym Mharc Penygroes a fyddai'n cael eu plannu, gan fod y torri gwair yn y lleoliad hwnnw yn cael ei reoli o dan Gytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng y

Cyngor Cymuned a Chyngor Sir Caerfyrddin. Yn ychwanegol, byddai pedair coeden y cytunwyd i'w plannu y llynedd ond ni chawsant eu gosod oherwydd eu bod o ansawdd gwael, yn cael eu plannu.

dd) Arolygu'r coed

Roedd y Clerc wedi gofyn i Aber Landscapes Ltd i gynnal arolwg blynyddol o'r coed yn y parciau. Derbyniwyd adroddiad cynhwysfawr y llynedd, gyda'r argymhelliad bod yr arolygon blynyddol yn parhau, a bod unrhyw waith adferol yn cael ei wneud yn ôl y galw. Roedd anfoneb am £750 a TAW wedi'i dderbyn am y gwaith.

Roedd yr adroddiadau yn dangos nad oes unrhyw risg di-oed yn unrhyw un o'r parciau. Mae un Risg Uchel yng Nghwmgwili.

Cwmgwili – tynnu i fwrdd cangen isel o goedden sy'n agos i fynediad y parc.

Mae Risgau Canolig yn:

- Derwydd – Clefyd (Chalara) coed ynn mewn un coeden
- Penygroes - clirio canghennau sydd wedi cwmpo o glawdd sy'n arwain at ardal chwarae'r plant
- cwtogi, o draean, maint coeden ger y brif fynediad i'r parc oherwydd ei bod yn pwyso'n sylweddol i'r ochr
 - codi coron y clawdd ar hyd y ffensin gwyrdd sy'n ffinio ar y parc beicio

Mae materion o risg isel yn y mwyafrif o'r parciau, a bydd y Clerc yn mynd ati i geisio dyfynbrisiau am wneud y gwaith sy'n weddill, ac a argymhellwyd eisoes.

718.

MATERION ARIANNOL

(i) Talu'r biliau

Adroddodd y Clerc i'r biliau canlynol gael eu derbyn yn ystod mis Mai 2020 a, gyda chydysniad y Cadeirydd, eu talu:

5161	Gwasanaethau Datblygu Rhodd Amanwy		£200.00
5162	Banc Bwyd Rhydaman	Rhodd	£500.00
5163	EDF	MUGA Llandybïe	£13.06
5164	EDF	Sied Fowlio Llandybïe	£20.39
5165	EDF	Pafiliwn Llandybïe	£27.50
5166	EDF	Parc Capel Hendre	£13.06
5167	MBP Fencing	Amnewid ac atgyweirio'r paneli MUGA a ddifrodwyd ym mharciau Llandybïe a Phenygroes	£1620.00

Cadeirydd

5168	MBP Fencing	Ail-osod pyst rygbi i'r ieuenctid ym Mharc Penygroes	£144.00
5169	MBP Fencing	Ffens newydd ym Mharc Saron	£1008.00
5170	Thesaurus Software Ltd	Adnewyddu trwydded Brightpay am 2020/21	£178.80
5174	EDF	Parc Penygroes	£9.93

Yn ychwanegol, derbyniwyd yr anfonebau canlynol:

5171	S Griffith	Cyflog, gan gynnwys lwfans defnydd tŷ fel swyddfa, Mai 2020	£2191.56
5172	R Thomas	Cyflog, gan gynnwys lwfans defnydd tŷ fel swyddfa, Mai 2020	£635.40
5173	Cyllid y Wlad	Mai 2020	£867.28
5175	Martin Davies	Cyfieithu Cofnodion y cyfarfodydd Cyffredin a Chynllunio a gynhaliwyd ar 6/5/20	£177.15
5176	Aber Landscapes Ltd	Arolwg o'r coed mewn 10 parc	£900.00
5178	Dynevor Tree Services	Clirio coeden ar llwybr troed 51/5 yng Nghwmgwili	£170.00
5179	Jeff's Tipper Hire	Dyletswyddau hylendid dŵr yn y Cyfleusterau Cyhoeddus yn ystod Mai 2020	£168.00
5180	Dwr Cymru	Pafiliwn Saron 27/11/19 to 20/5/20	£131.00
5181	Morgan and Morgan Inc		£75.00

Penderfynodd yr Aelodau y dylid cymeradwyo, yn ôl-weithredol, y taliadau a gytunwyd arnynt gan y Cadeirydd.

(ii) Monitro'r gyllideb yn fisol - Ebrill - 1/4/20 tan 30/4/20

2020/21 Amcangyfrif £	Gwariant gwirioneddol hyd yn hyn £	
180,000	60,000	Prasept
150	10	Llog: Lloyds
400	0	Llog: cyfrifon buddsoddi
		Hawliau Tramwy
3000	3,000	Cyhoeddus
4700	0	Cytundebau Llogi
<u>188,250</u>	<u>63,010</u>	
45,889	3,695	Staffio
		Tir ac
17,650	698	adeiladau
4,750	1,474	Gwasanaethau Swyddfa
3,100	0	Costau'r Aelodau
10,000	672	Gwasanaethau a

		500	Thanysgrifiadau	
			Adran 137	
}	18,000	0	Taliadau yn unol â phwerau eraill	
		0	Mannau agored cyhoeddus	
		0	Neuaddau pentref	
		0	Claddfeydd	
}	10,000	0	Hawliau Tramwy – cynnal a chadw	
			Hawliau Tramwy – gwelliannau	
		0		
	28,000	0	Torri porfa/ sbwriel/ cyfleusterau	
	50,000	0	Atgyweirio ac amnewid yn y parciau	
}		0	Goleuo cyhoeddus - ynni	}
	8,500	0	Goleuo cyhoeddus - gwelliant	
	28,000	0	Datblygu Cymunedol	
	13,000	168	Cyfleusterau Cyhoeddus	
	236,889	7,207		
			Balans am y flwyddyn	
		55,803	(cyfnod)	
		337,001	d/y	
	0	392,804	c/y	

			Arian parod a
	392,279		buddsoddiadau
	525		Dyledwyr Dyledwyr
	0		Credydwyr Credydwyr
	392,804		

Roedd y Cadeirydd wedi gwahodd unrhyw gwestiynau neu sylwadau.

Penderfynodd yr Aelodau gymeradwyo'r cyfrifon fel uchod.

719.

Dyddiad y cyfarfod nesaf

Penderfynodd yr Aelodau y dylid cynnal Cyfarfod Cyffredin nesaf y Cyngor ar Fehefin 24^{ain}, 2020.

720.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall i'w drafod, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 7.10 yh.

Cadeirydd